

1. Crynodeb Gweithredol

- 1 Mae'r papur hwn yn cyflwyno pecyn o ddiwygiadau i'r gweithdrefnau sy'n llywodraethu hawliadau mesothelioma er mwyn ymgynghori arnynt. Mae'n diwallu ymrwymiad y Llywodraeth i ymgynghori ar y cynigion a gyhoeddwyd mewn Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig ar 18 Rhagfyr 2012.²
- 2 Mae'r ymgynghoriad ar gyfer pobl a sefydliadau sydd â diddordeb yn y broses hawliadau mesothelioma yng Nghymru a Lloegr. Mae copïau o'r papur ymgynghori yn cael eu hanfon at y bobl a'r sefydliadau sydd wedi'u rhestru yn Atodiad A. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn a chroesewir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb neu safbwyntiau ar y pwnc.
- 3 Byddai'r Llywodraeth yn croesawu sylwadau i'r cwestiynau a gyflwynir yn y papur ymgynghori hwn. Mae pymtheg cwestiwn unigol yr ymgynghoriad yn cael eu nodi ym mhenodau perthnasol y papur ac yna'n cael eu hailadrodd yn y bennod 'Holiadur' ar y diwedd.
- 4 Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw hanner nos ar 2 Hydref 2013. AR ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn ystyried yr ymatebion y byddwn wedi'u derbyn. Rydym yn bwriadu cyhoeddi dogfen yn cynnwys yr ymatebion yn ystod gaeaf 2013.
- 5 Mae crynodeb Cymraeg o'r Crynodeb Gweithredol a'r Holiadur ar gael yn www.justice.gov.uk.

Y mater

- 6 Mae mesothelioma yn ganser y pilenni tenau sy'n leinio'r frest a'r abdomen. Mae'n afiechyd lle mae'r symptomau yn aml yn datblygu 30-40 mlynedd ar ôl yr amlygiad ac nid yw dioddefwyr yn y rhan fwyaf o achosion yn derbyn diagnosis nes y byddant yn mynd yn sâl. Unwaith y ceir diagnosis o'r clefyd, mae'n troi'n angheuol yn gyflym. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn datgan bod y rhan fwyaf o farwolaethau sy'n digwydd yn awr yn etifeddiaeth o amlygiad galwedigaethol i asbestos yn y gorffennol, pan oedd y diwydiant adeiladu yn gwneud defnydd ohono³.

Mae tua 2,200 o bobl yn marw bob blwyddyn o'r afiechyd hwn yng Nghymru a Lloegr⁴ ac amcangyfrifir y bydd tua 23,000 o farwolaethau rhwng 2014 a 2024 ledled y Deyrnas Unedig⁵. Disgwylir y bydd dioddefwyr ond yn byw am rhwng 7 a 9 mis ar ôl derbyn diagnosis⁶.

- 8 Mae dadansoddiad eilaidd ar y set ddata dros dro a baratowyd gan y Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (NIESR)⁷ yn dangos ei bod yn cymryd mwy na 12 mis i setlo tua 50% o hawliadau mesothelioma yn dilyn cyflwyno'r hawliad cyntaf. O ystyried natur ymosodol yr afiechyd, mae hyn yn golygu bod dioddefwyr yn aml yn marw cyn y byddant yn derbyn taliadau eu

hawliadau. Mae'r Llywodraeth yn pryderu am yr amser mae'n ei gymryd i dalu iawndal i ddiodefwyr mesothelioma ar hyn o bryd.

Cynigion ar gyfer diwygio

9 Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn bwriadu cynyddu cyflymder a gwella effeithlonrwydd y broses hawliadau er mwyn i daliadau iawndal gael eu talu'n gynnar.

10 Mae Pennod 2 yn nodi'r cynigion sy'n ceisio cyflymu'r hawliadau mesothelioma, er mwyn galluogi i fwy o achosion, pan fydd cyflogwr neu yswiriwr y gellir eu holrhain, gael eu datrys o fewn 6 mis, gydag achosion gweddol syml yn cael eu datrys mewn 3 mis.

- **Protocol Cyn-gweithredu Mesothelioma newydd a phenodol** er mwyn sefydlu proses safonol gyflymach i bennu amserlenni ar gyfer gallu gwneud hawliadau mesothelioma yn symlach. Mae'r protocol hwn yn ceisio ysgogi proses lle bydd hawliadau yn cael eu setlo'n gynnar, heb ymglyfreitha pan fydd hynny'n bosibl, a fydd yn helpu'r llysoedd i ganolbwyntio ar achosion mwy cymhleth mesothelioma.
- **Porth Diogel Hawliadau Mesothelioma** sy'n ceisio cefnogi'r Protocol Cyn-gweithredu Mesothelioma drwy ddarparu dull diogel i hawlwr gofrestru gwybodaeth angenrheidiol megis cofnodion meddygol. Bydd y Porth Diogel Hawliadau Mesothelioma hefyd yn delio â hawliadau mesothelioma na ellir eu holrhain. Bydd yn cael ei gysylltu â gwefan gymorth mesothelioma sy'n darparu gwybodaeth i bob diodefwyr ar y camau gweithredu sydd ar gael iddynt.

Mae Pennod 3 yn edrych ar ddatblygu **system costau sefydlog adferadwy (FRC)** a fydd yn ceisio sicrhau mwy o gyflymder ac effeithlonrwydd wrth ddelio â hawliadau mesothelioma symlach a fydd yn mynd drwy'r Protocol Cyn-gweithredu Mesothelioma o dan y system newydd. Byddai'r system hon yn helpu i bwysleisio ac annog cyfranoledd o ran faint o waith cyfreithiol a wneir a rhoi mwy o sicrwydd am y costau cyfreithiol y bydd hawlwr yn gorfod eu talu. Rydym yn awyddus i dderbyn eich safbwyntiau ar yr egwyddor o system costau sefydlog adferadwy a strwythur y system hon, a thystiolaeth o'r lefelau cost sefydlog y byddai'n bosibl eu pennu mewn system o'r fath.

12 Mae Pennod 4 yn mynd i'r afael â'n hadolygiad o effaith y cytundeb ffi amodol ar hawliadau mesothelioma, sy'n ofyniad yn adran 48, Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwr 2012 (LASPO). Er bod y Llywodraeth wedi cyflwyno diwygiadau i'r system 'dim ennill dim ffi' ar gyfer achosion anafiadau personol, ers 1 Ebrill 2013, mae achosion mesothelioma wedi'u heithrio o'r diwygiadau hyn ar hyn o bryd nes y bydd y mater yn cael ei adolygu.

13 Mae ein pecyn o ddiwygiadau yn ceisio cyd-fynd â chynigion Cynllun Talu Mesothelioma Ymledol i dalu iawndal i hawlwr mesothelioma na ellir olrhain eu cyflogwyr ac yswirwyr blaenorol⁸. Mae'r mesurau sydd wedi'u nodi yn y Bil Mesothelioma, yn sefydlu cynllun talu er mwyn i unrhyw un sy'n derbyn diagnosis o mesothelioma o ganlyniad i amlygiad i asbestos galwedigaethol ac sydd, oherwydd yr oedi, wedi methu ag olrhain eu cyflogwr atebol neu yswiriwr eu

cyflogwr, fod yn gymwys i hawlio o dan y cynllun hwn os ydynt wedi cael diagnosis o mesothelioma ar 25 Gorffennaf 2012 neu ar ôl hynny.

- 14 Mae'r Bil Mesothelioma yn sicrhau bod holl yswirwyr gweithredol Atebolrwydd Cyflogwyr yn cyfrannu at y lefi. Bydd y Swyddfa Orlhain Atebolrwydd Cyflogwyr, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2011 yn cefnogi hyn. Mae'r Swyddfa Orlhain Atebolrwydd Cyflogwyr yn gronfa ddata electronig o bolisiâu Atebolrwydd Cyflogwyr y mae 99% o yswirwyr Atebolrwydd Cyflogwyr yn darparu data ar ei gyfer; a dylai hyn gynyddu'r nifer o bolisiâu Atebolrwydd Cyflogwyr sy'n cael eu holrhain yn sylweddol, er mwyn i fwy o bobl gael yr iawndal maent yn ei haeddu. .
- 15 Bwriedir ymestyn y Bil Mesothelioma i'r Alban a Gogledd Iwerddon, i sicrhau bod dioddefwyr nad ydynt yn gallu olrhain cyflogwr atebol i hawlio iawndal ganddynt yn gallu manteisio ar y cynllun talu gorfodol.
- 16 Fodd bynnag, nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ymestyn i'r Alban na Gogledd Iwerddon. Nid yw Llywodraeth yr Alban na Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn ymwybodol o unrhyw faterion, fel oedi, sy'n codi yn sgil prosesu achosion mesothelioma yn eu systemau. Mae'r ddwy weinyddiaeth yn dal i adolygu materion i sicrhau bod hawliadau mesothelioma yn cael eu prosesu a'u setlo'n gyflym ac yn deg.

Asesiad o Effaith

- 17 Mae Asesiad o Effaith y Llywodraeth yn cael ei gyhoeddi ar wahân. Byddai system sy'n setlo achosion yn gyflymach ac sy'n cyflawni canlyniadau cyfatebol gan ddefnyddio llai o adnoddau yn gysylltiedig â lefel uwch yn gyffredinol o effeithlonrwydd economaidd.
- 18 Mae'r Llywodraeth wedi asesu effeithiau posibl y diwygiadau arfaethedig yn unol â'n goblygiadau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Datganiad Cydraddoldeb yn cael ei gyhoeddi ar wahân. Nid oes disgwyl i'r diwygiadau arfaethedig wahaniaethu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol wrth gael eu gweithredu.

² Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog, Hansard HoC 18 Rhagfyr 2012 : Colofn 96WS

³ Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

<http://www.hse.gov.uk/statistics/causdis/mesothelioma/index.htm>

⁴ Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch <http://www.hse.gov.uk/statistics/tables/meso01.xls>

⁵ Asesiad Effaith yr Adran Gwaith a Phensiynau: Cynllun Talu Mesothelioma

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/198388/mesothelioma-payment-scheme-impact-assessment.pdf

⁶ Lancet Journal 2008 Mai 1; 371(9625): 1685-

1694 <http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC2431123/>

⁷ Dadansoddiad eilaidd ar y set ddata dros dro a gyflwynwyd gan NIESR (Cymru a Lloegr). Roedd yr arolwg yn rhoi sylw i hawliadau atebolrwydd cyflogwyr a setlwyd yn y sector preifat rhwng 2007 a 2012.

⁸ Ymgynghoriad yr Adran Gwaith a Phensiynau: Cael iawndal: cefnogi pobl i olrhain Yswiriant

Atebolrwydd Cyflogwyr <http://www.dwp.gov.uk/consultations/2010/accessing-compensation-elci.shtml>

Holiadur

Byddem yn falch o gael eich ymateb i'r cwestiynau isod a nodwyd yn y papur ymgynghorol hwn:

C1: Beth yn eich barn chi yw manteision ac anfanteision y Protocol Cyn-Gweithredu Mesothelioma presennol ar gyfer datrys hawliadau mesothelioma yn gyflym a theg?

C2: I ba raddau ydych chi'n credu y bydd y Protocol Cyn-Gweithredu Mesothelioma yn mynd i'r afael â'r problemau ac yn cyflawni'r amcanion uchod?

C3. Beth yw eich barn yn benodol ar Brotocol Cyn-Gweithredu Mesothelioma Cymdeithas Yswirwyr Prydain yn Atodiad B? Pa faterion eraill y gallai fynd i'r afael â hwy? Ydych chi'n credu bod y meini prawf ar gyfer Protocol Cyn-Gweithredu Mesothelioma yn rhai priodol? Os na, pa feini prawf fydddech chi'n eu hawgrymu, a pham? Ym mha sefyllfaoedd, os o gwbl, ddylai achos ddod allan o'r Protocol Cyn-Gweithredu Mesothelioma ?

C4: I ba raddau ydych chi'n credu y byddai'r Protocol Cyn-Gweithredu Mesothelioma arfaethedig yn arwain at gostau cyfreithiol is mewn hawliadau mesothelioma?

C5: I ba raddau ydych chi'n credu y byddai Porth Diogel Hawliadau Mesothelioma yn helpu i gyflawni amcan y Llywodraeth o sicrhau bod hawliadau'n cael eu setlo yn gyflym a theg?

C6: Sut ddylai'r Porth Diogel Hawliadau Mesothelioma weithio (os o gwbl) gyda'r Protocol Cyn-Gweithredu Mesothelioma a'r drefn mewn achosion olrhain mesothelioma yn gyffredinol, a pha nodweddion ddylai fod gan y Porth Diogel Hawliadau Mesothelioma eu cael er mwyn cyd-fynd â'r gweithdrefnau hyn yn effeithiol ac yn effeithlon?

C7: Beth, yn eich barn chi, yw risgiau Porth Diogel Hawliadau Mesothelioma a pha nodweddion diogelwch y gallai fod eu hangen?

C8: Ydych chi'n cytuno y dylid cyflwyno system adfer costau sefydlog i gefnogi Protocol Cyn-gweithredu Mesothelioma penodol? Os felly, a ddylai hyn fod yn benodol ar gyfer costau hawlwyd? A ddylai unrhyw fesurau fod yn berthnasol i gostau diffynyddion hefyd? Os felly, rhowch awgrymiadau ar gyfer mesurau o'r fath.

C9: Pa gynllun fyddai orau gennych chi ar gyfer strwythur adfer costau sefydlog? Esboniwch eich ateb.

C10: Beth yw prif ysgogwyr costau cyfreithiol, costau sefydlog ac amrywiol a pha mor gryf yw'r ysgogwyr hyn?

C11: Beth yw eich barn ar lefel y costau adferadwy sefydlog, mewn cysylltiad â'r cynllun a ffafrir gennych? Esboniwch eich ateb.

C12: Ydych chi'n cytuno y dylid ond cyflwyno'r system costau adferadwy sefydlog ar gyfer achosion sydd wedi'u cynnwys o fewn y Protocol Cyn-gweithredu Mesothelioma?

C13: I ba raddau ydych chi'n credu y mae'r diwygiadau'n berthnasol i fusnesau bychan a busnesau micro?

C14: I ba raddau ydych chi'n credu y gallai'r diwygiadau arwain at effeithiau gwahaniaethol (o ran buddion a chostau) i fusnesau bychan a busnesau micro? Sut y gellid lleihau unrhyw gostau gwahaniaethol?

C15: Ydych chi'n cytuno y dylid cyflwyno adrannau 44 a 46 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012 mewn cysylltiad â hawliadau mesothelioma, yng ngoleuni'r diwygiadau arfaethedig sydd wedi'u disgrifio yn yr ymgynghoriad hwn, y cynnydd i iawndal cyffredinol a'r diogelwch i gostau sy'n cael ei ddisgrifio uchod, a'r Bil Mesothelioma?

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.